

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cyngorydd Heidi Bennett

Ward: Pen-y-Fai

Plaid: Llafur Cymru a Chydweithfa

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cyngorydd ac nid ydyw o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng mis Mai 2023 a 2024 bûm yn gwasanaethu ar 8 pwyllgor.

Roeddwn i'n aelod o Drosolwg a Chraffu Corfforaethol, Rheoli Datblygu, Pwyllgor Trwyddedu ac is-bwyllgor B, Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 ac is-bwyllgor B, Fforwm Cyngor Tref a Chymuned, ac rwy'n gwasanaethu fel Cadeirydd y Panel Apeliadau. Mae hyn yn ychwanegol at y cyngor llawn misol.

Yn ystod y cyfnod hwn, cymerais ran weithredol mewn 36 o gyfarfodydd pwyllgor gyda chyfradd presenoldeb o 100%. Mae fy mhwyllgor yn cyflawni swyddogaethau strategol, craffu a rheoleiddiol y Cyngor. Fodd bynnag, yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, yw'r hyn rydw i wedi'i wneud dros etholwyr yn fy ward, a amlinellir isod.

Gan fy mod yn aelod o'r pwyllgor rheoleiddio ac i'm galluogi i gyflawni fy rôl, rwyf wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol. O ran sesiynau datblygu aelodau, ar bynciau neu faterion lle nad wyf eisoes wedi cael hyfforddiant drwy ffynonellau eraill, rwy'n manteisio ar y cyfleoedd sy'n ychwanegu gwybodaeth a gwerth at fy rôl.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen hon:

[Manylion cynghorwyr - Y Cyngorydd Heidi Bennett - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Cynhaliais nifer o sesiynau cymorthfeydd cyngor cymunedol lleol gan fynd ati i ymgysylltu â thrigolion a datrys materion oedd yn bersonol iddynt. Rwy'n mynd o ddrws i ddrws o bryd i'w gilydd i gysylltu â thrigolion hefyd.

Derbyniais dros 200 o ryngweithiadau ac ymholiadau drwy e-bost, galwadau ffôn, cyfryngau cymdeithasol a chymorthfeydd. Nid oedd pob mater yn dod o fewn pwerau/cylch gwaith BCBC, ond ymatebais i helpu i ddatrys problemau lle bynnag yr oedd modd, a chynrychioli ac atgyfeirio preswylwyr lle bynnag y bo'n briodol, gan ddefnyddio fy ngwybodaeth leol am sefydliadau arbenigol sy'n darparu cymorth cyflym ar y pwynt cyswllt. Yn ogystal, cyflwynais 85 o adroddiadau ac atgyfeiriadau gwaith achos ffurfiol pellach.

Nid yw pob ymateb i waith achos wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, cynorthwyais ag ystod eang o faterion, yr oedd rhai ohonynt yn dilyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys: materion parcio ysgol a diffyg patrol, parthau 20mya y pentref a mynd i'r afael â materion cyflymder, cysylltu â SCCH ar y materion hyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eraill,

cynorthwyo gyda'r oedi mewn taliadau cymorth i westeion ffoaduriaid, tipio anghyfreithlon a materion tai yn ogystal â diffyg gwasanaeth bws ar gyfer y pentref.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno adroddiadau ynghylch cydbwysio datblygiad bioamrywiaeth a chynnal a chadw mannau gwyrdd, casgliadau gwastraff a gollwyd neu a ohiriwyd, ceuffosydd wedi'u rhwystro, llifogydd, atgyweirio ffynhonnau a draeniau, meinciau newydd, arwynebau ffyrdd newydd, cynnal a chadw coed, atgyweirio meysydd chwarae a thyllau yn y ffordd, i enwi ond ychydig.

Rwyf hefyd wedi cysylltu preswylwyr â cheisiadau cynllunio lleol (yn y ward neu'n effeithio ar y ward) ac wedi darparu sylwadau, pryderon ac adborth preswylwyr i Swyddogion Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio lle bo hynny'n briodol.

Cyflwynais yn ffurfiol i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar un datblygiad penodol ym Mhen-y-Fai a Llys Colman a arweiniodd at osod cyfyngiadau ac amodau clir i leddfu'r pryderon a godwyd gan drigolion.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ar ôl fy mewnbyn o ran cyflwyno ffyrdd 20mya i'r pentref i fynd i'r afael â phroblemau goryrru, rwy'n parhau i gysylltu â Gan Bwyll Cymru pan fydd gyrrwyr yn gyrru'n rhy gyflym.

Gweithiais gyda'r ysgol a Chyngor Cymuned y Castellnewydd Uwch (CCCU) i ddarparu arwyddion diogelwch ar y ffyrdd i rybuddio cerbydau eu bod yn agosáu at yr ysgol a'r angen i fod yn ofalus am ddiogelwch disgyblion. Cynhaliais ymweliadau safle â swyddogion priffyrdd i edrych ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn yr ysgol ac mae disgwyl i welliannau gael eu rhoi ar waith.

Rwyf wedi eirioli dros hygyrchedd gwell i'r rhai sydd â phroblemau symudedd a 'chfuno' cyrbau isel ledled y pentref a disodli gatieu anhygyrch i'n mannau gwyrdd (ynghyd â CCCU).

Cwrddais â swyddogion CBSP hefyd mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran cyflwyno man croesi diogel dros yr A4061 fel rhan o lwybr teithio llesol a fydd yn symud i ymgysylltiad â'r cyhoedd yn y flwyddyn i ddod.

Gan weithio gyda thîm newid hinsawdd CBSP, rwy'n gobeithio cael cefnogaeth i ddatblygu ein mannau gwyrdd ymhellach trwy gynllun peilot, gan edrych ar bethau fel plannu coed, coridorau bioamrywiaeth a dolydd wedi'u cydbwysio â mannau a gynhelir yn dda i hwyluso chwarae.

Mae gwirio blaenoriaethau, perfformiad a chyfathrebu â thrigolion yn bwysig er mwyn sicrhau fy mod yn cynrychioli fy ardal yn iawn. Cynhaliais holiadur gwerthuso 'ciplun' dienw gyda phreswylwyr i gasglu barn ar fy mherfformiad i chwilio am ffyrdd o wella, ac i bennu blaenoriaethau allweddol preswylwyr. Mae bod yn atebol hefyd yn bwysig i mi ac nid yw pawb ar-lein, felly cyflwynais fy nghylchlythyr blynyddol i aelwydydd hefyd i dynnu sylw at y gwaith rwyf wedi bod yn gysylltiedig ag ef a'm record bleidleisio.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n aelod o Gymdeithas Gymunedol Pentref Pen-y-fai (CCPP) a Chyngor Cymuned Castellnewydd Uwch ac yn cysylltu â nifer o grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol. Rwy'n gweithio ar y cyd â thrigolion a chynghorwyr cymuned i ddatblygu mentrau fel basgedi crog, goleuadau Nadolig, plannu cymunedol, sesiynau casglu sbwriel gwirfoddol misol, ffeiriau a dathliadau ac, yn fwyaf diweddar, lansio'r ystafell de dros dro lle byddaf yn cynnal fy sesiynau cymhorthfa misol.

Roedd gen i gyfrifoldebau ychwanegol hefyd fel Cadeirydd Cyllid ar Gyngor Cymuned y Castellnewydd Uwch ac roeddwn i'n gynghorydd arweiniol yn cefnogi'r clerch newydd gyda symud i wefan newydd a hygyrch i wella llif gwybodaeth i breswylwyr.

Rwy'n bersonol yn cynnal presenoldeb cyfryngau cymdeithasol sy'n ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned am newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rwy'n ymdrechu i fod ar gael yn hawdd i breswylwyr trwy gymorthfeydd un i un, ffôn, negeseuon testun, post, e-bost, negeseuon uniongyrchol Facebook a WhatsApp ac rwy'n anelu at ymateb i ymholiadau o fewn 48 awr.

Y Cyngorydd: *Heidi Bennett*

Dyddiad: 19/06/2024